

AWDURDOD TÂN CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU



MID AND WEST WALES FIRE AUTHORITY

SYLWER: MAE'R COFNODION YMA'N AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR SAFONAU YN EI GYFARFOD NESAF

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONAU

Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
2 RHAGFYR 2013

MINUTES OF THE STANDARDS COMMITTEE MEETING

Held at Fire Service Headquarters, Lime Grove Avenue,
Carmarthen
2 DECEMBER 2013

10.30 – 11.45

57% PRESENOLDEB/ATTENDANCE

Presennol yn y Cyfarfod/Present at Meeting:

CADEIRYDD/CHAIR: Mr H Jones
IS-GADEIRYDD/DEPUTY CHAIR: Ms G Storr

AELODAU/MEMBERS: Cyng./ Cllr L Frayling, Cyng. / Cllr R
Llewellyn,
D Daycock

YMDDIHEURIADAU/APOLOGIES

Mr R Jenkins, Mr M Jehu

YN BRESENNOL /IN ATTENDANCE:

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cofnodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr R Jenkins a Mr M Jehu.

2 DATGANIAD GAN AELODAU O UNRHYW FUDDIANNAU PERSONOL NEU SY'N RHAGFARNU

Fe wnaeth yr holl Aelodau Awdurdod Lleol a oedd yn bresennol ddatgan fod ganddynt fuddiant personol mewn materion yn ymwneud â, neu sy'n debygol o effeithio ar eu Hawdurdod Cyfansoddol nhw.

Fe wnaeth yr holl Aelodau a oedd yn bresennol ddatgan buddiant mewn perthynas ag eitemau 8 a 9 ar yr Agenda, parthed ag Adroddiad Ychwanegol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a'i Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2014/15.

3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD / MATERION PERSONOL

Dyweddodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Gwasanaethau Democrataidd yn anhwylyd ar hyn o bryd, ac estynnodd ei ddymuniadau gorau ar gyfer gwellhad buan.

4 I DDERBYN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 29 GORFFENAF 2013

Derbyniwyd a chymeradwywyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29^{ain} o Orffennaf 2013, yn gofnod cywir.

I YSTYRIED MATERION YN DEILLIO O'R COFNODION

Tudalen 1, eitem 3, Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:

Cadarnhaodd y Clerc / Swyddog Monitro fod y Cyng. L Frayling wedi derbyn Hyfforddiant ar y Côt Ymddygiad ar yr 2^{il} o Fedi 2013.

Ar gais y Pwyllgor, roedd amser cychwyn o 10:30yb wedi cael ei dreialu ar gyfer y cyfarfod, ac roedd yr Aelodau'n fodlon parhau gyda'r amser yma ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Tudalen 7, eitem 6, Cynhadledd Safonau Flynyddol:

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu cyfarfod yr Awdurdod Tân ar y 23^{ain} o Fedi 2013, i gyflwyno'r adroddiad ar Gynhadledd Safonau Flynyddol 2013.

Tudalen 6, eitem 8, Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman ar gyfer 2012/13:

Dyweddwyd wrth y Pwyllgor fod ystyriaeth wedi cael ei roddi i ddatblygu Ap Cyfryngau Cymdeithasol, i dynnu sylw at gylch gwaith y Pwyllgor Safonau, fodd bynnag, penderfynwyd na fyddai'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd.

Tudalen 7, eitem 9, rhifynnau 11 a 12 o goflyfr yr Ombwdsman:

Adroddodd y Clerc / Swyddog Monitro ei fod wedi derbyn cadarnhad oddi wrth swyddfa Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru nad oedd unrhyw gydberthynas rhwng nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y swyddfa a'r etholiadau Awdurdod Lleol yn Ynys Môn.

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor fod ymholiadau wedi cael eu gwneud gyda swyddfa Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, er mwyn penderfynu p'un ai dylid sefydlu protocol ffurfiol i hysbysu Swyddog Monitro'r Awdurdod am achosion ble mae cwynion côd ymddygiad wedi cael eu gwneud yn erbyn Aelodau o'r Awdurdod Tân, mewn perthynas â'u rôl fel Aelodau o Awdurdod Lleol cyfansoddol. Fodd bynnag, roedd swyddfa Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cadarnhau y byddai'n well ganddynt beidio â sefydlu protocol o'r fath.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Mr Peter Tyndall, a fu'n gwasanaethu fel Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers mis Ebrill 2008, wedi cael ei benodi'n Ombwdsman a Chomisiynydd Gwybodaeth Iwerddon. Felly, roedd yr Athro Margaret Griffiths wedi cymryd yr awenau fel Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro.

Cadarnhawyd bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2012/13 wedi cael ei ddsbarthu i Aelodau'r Pwyllgor ac roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod yr Awdurdod Tân, ar y 23^{ain} o Fedi 2013, i gyflwyno'r adroddiad.

5 I DDERBYN ADRODDIAD AR BROTOCOL HUNANREOLI'R AELODAU

Cyflwynodd y Clerc / Swyddog Monitro'r adroddiad ar BroTOCOL Hunanreoli'r Aelodau, a oedd yn amlinellu cynigion i roi trefniadau lleol mewn lle i ymdrin â lefel yn is o gwynion, neu gwynion un aelod am aelod arall.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai mabwysiadu protocol hunanreoli yn cynnig prosesau cyflafareddu mewnol, er mwyn cryfhau a chyflymu atebolrwydd o ran ymddygiad aelodau ac i leihau nifer yr atgyfeiriadau at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, o ran materion lefel cymharol isel.

Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen ar yr 28^{ain} o Awst 2013, yn cynnwys y Cadeirydd, Mr M Jehu, y Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Gwasanaethau Democratiaid a'r Clerc / Swyddog Monitro, er mwyn datblygu protocol drafft. Roedd y grŵp wedi cwblhau protocol drafft, a ddsbarthwyd i aelodau'r Pwyllgor Safonau er mwyn derbyn eu sylwadau. Pwysleisiwyd bod y protocol yn ddogfen gryno, a oedd yn seiliedig ar arfer da ac ar bolisiau enghreifftiol Awdurdodau eraill, ac y bwriadwyd iddo ategu a gwella'r Côd Ymddygiad presennol.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r protocol drafft ac fe awgrymwyd rhai newidiadau i'w cynnwys yn y ddogfen, cyn ei argymhell i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo ar y

9^{fed} o Ragfyr 2013.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Clerc / Swyddog Monitro y byddai natur neu ddifrifoldeb y cwyn yn penderfynu p'un ai byddai'n cael ei ymdrin yn fewnol neu p'un ai byddai'n cael ei gyfeirio ar unwaith at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cytunodd y Clerc / Swyddog Monitro y byddai'n holi p'un ai byddai'r Panel Dyfarnu Lleol yn medru cyfeirio cwynion at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ar unrhyw adeg yn ystod y broses ymchwilio, pe byddent yn ystyried hynny'n briodol.

Cadarnhaodd y Clerc / Swyddog Monitro y byddai aelodau'r Panel Dyfarnu Lleol yn cynnwys Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol, ynghyd ag Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, a fyddai'n cael ei ddewis ar adeg galw'r Panel ynghyd, ac a fyddai'n Gadeirydd ar unrhyw gyfarfodydd.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD

Bod Protocol Hunanreoli'r Aelodau'n cael ei argymhell i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo.

6 I DDERBYN ADRODDIAD AR YSWIRIANT INDEMNIADAU

Adroddodd y Clerc / Swyddog Monitro bod yr Awdurdod, mewn telerau cyffredinol, yn medru indemnio pob Aelod a Swyddog o'r Awdurdod yn erbyn unrhyw hawliad, atebolrwydd neu golled a/neu iawndal, a achoswyd ganddynt mewn perthynas ag unrhyw weithred neu fethiant i weithredu gan unrhyw Aelod neu Swyddog wrth gyflawni eu dyletswyddau, cyn belled ag y bo'r gyfraith yn caniatáu. Byddai'r indemniad hwn yn cynnwys costau cyfreithiol cynrychiolaeth hefyd, pe digwydd i'r Aelod fod yn destun i ymchwiliad sy'n honni ei fod wedi torri Côd Ymddygiad yr Aelodau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gan yr Awdurdod Bolisi Yswiriant mewn lle, sy'n cynnwys torri'r Côd Ymddygiad, y mae'n ddilys nes Mawrth 2014, a fyddai'n talu costau ffioedd cyfreithiol hyd at uchafswm o £50,000 fesul hawliad a chyfanswm o £500,000 fesul cyfnod o yswiriant. Hefyd, mewn achosion lle cafwyd Aelod yn euog o dorri'r Côd Ymddygiad a bod cosb, megis gwaharddiad, yn cael ei orfodi, yna byddai'r Awdurdod yn disgwyl i'r holl gostau a gafwyd i gael eu had-dalu gan yr Aelod.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r polisi diwygiedig ac, yng ngoleuni'r cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod, teimlwyd ei bod yn ddoeth gosod terfyn ariannol o £20,000 ar gyfer pob indemniad, yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD

Bod y polisi indemniadau diwygiedig yn cael ei gytuno, gyda therfyn o £20,000 yn cael ei osod ar gyfer pob indemniad, a'i argymhell i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo.

7 I DDERBYN ADRODDIAD AR Y POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

Cyflwynodd y Clerc / Swyddog Monitro adroddiad ar y Polisi Chwythu'r Chwiban, a oedd yn anelu at annog gweithwyr i grybwyll materion yn ymwneud â thwyll, camymddygiad neu gamweddau heb ofni cael eu trin yn anfanteisiol yn dilyn y datgeliad.

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor bod newidiadau wedi cael eu gwneud i'r Polisi Chwythu'r Chwiban, a oedd yn adlewyrchu darpariaethau diwygiedig Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996, yn dilyn cyflwyniad adrannau 17-20 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r Polisi Chwythu'r Chwiban diweddaredig, POD 05 60, a amlinellwyd yn Atodiad 1 i'r ddogfen, a ddiwygiwyd hefyd yn unol ag arfer gorau cydnabyddedig.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor i argymhell y Polisi diwygiedig drafft i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo ac, os caiff ei gymeradwyo, ei fod yn cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD bod Polisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig drafft POD 05 60 yn cael ei argymhell i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo, a'i gynnwys yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod Tân.

8 I DDERBYN ADRODDIAD AR ADRODDIAD YCHWANEGOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Adroddodd y Clerc / Swyddog Monitro bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (IRPW) wedi cyhoeddi adroddiad ychwanegol, mewn perthynas â thaliadau i aelodau cyfetholedig o Awdurdodau Lleol yng Nghymru, yn unol ag adran 147 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Er gwybodaeth, darparwyd y Pwyllgor â'r prif ddarpariaethau a amlinellwyd yn yr adroddiad ychwanegol o ran taliadau a dderbyniwyd am baratoi cyn cyfarfodydd, amser teithio, penderfynu ar hyd cyfarfodydd ymlaen llaw a dyletswyddau cymeradwy sy'n gymwys ar gyfer tâl. Nodwyd y byddai'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ychwanegol yn dod i rym ar Ionawr y 1^{af} 2014.

Mewn ymateb i ymholiad, cytunodd y Clerc / Swyddog Monitro i ofyn am eglurhad gan yr IRPW, er mwyn darganfod y dull priodol o gyfrif y ffioedd sy'n daladwy i Aelodau.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

9 I DDERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL AR GYFER 2014/15

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) i'r Pwyllgor, a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y cyfnod ymgynghori, i ddarparu unrhyw osodiadau neu sylwadau ar yr adroddiad drafft, wedi dod i ben ar y 26^{ain} o Dachwedd 2013, a bod holl Aelodau'r Awdurdod Tân a'r Pwyllgor Safonau wedi cael cyfle i ymateb yn uniongyrchol i'r IRPW.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol drafft, a oedd yn ceisio darparu cydraddoldeb o ran taliadau Awdurdodau Tân ac Awdurdodau Cyfansoddol. Nodwyd y dylai cyflog sylfaenol Aelodau arferol o Awdurdod Tân ac Achub fod yn £1,700, a dylai Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub dderbyn cyflog uwch o £10,400. Cadarnhaodd y Clerc / Swyddog Monitro bod yr Awdurdod wedi penderfynu yn y gorffennol i beidio â rhoi cyflog uwch i Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân nac i Gadeiryddion y Pwyllgorau, er bod y cyflog uwch a argymhellwyd gan yr IRPW yn amodi ffi o £5,400.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

10 I DDERBYN RHIFYNNAU 13 A 14 O GOFLYFR YR OMBWDSMAN

Rhoddodd y Clerc / Swyddog Monitro drosolwg i'r Pwyllgor o Rifynnau 13 a 14 o Goflyfr yr Ombwdsman, a oedd yn amgaeëdig gyda'r adroddiad er gwybodaeth i'r Aelodau, ac a oedd yn traethu achosion nodedig y mae Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymdrin â nhw. Nododd y Pwyllgor fod y coflyfr yn canolbwyntio'n bennaf ar nifer uchel yr achosion o gamweinyddu o fewn yr Awdurdod Iechyd a'r Awdurdodau Unedol.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at rifyn 13 o goflyfr yr Ombwdsman, a ddarparwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a oedd yn nodi gostyngiad o 29% yn nifer y cwynion Côt Ymddygiad a dderbyniwyd yn 2012/13 o gymharu â 2011/12, a chynnydd o 5% yn nifer yr atgyfeiriadau at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Cyfeiriwyd at fwriad yr Ombwdsman i gyflwyno coflyfr Côt Ymddygiad newydd yn ystod 2013, a chytunodd y Clerc / Swyddog Monitro i wneud ymholiadau er mwyn darganfod pryd bydd yn cael ei gyhoeddi.

Tynnodd y Clerc / Swyddog Monitro sylw'r Aelodau at gwyn a wnaed yn erbyn yr Awdurdod, a oedd wedi cael ei gyhoeddi yn y coflyfr. Roedd y cwyn yn cyfeirio at ddifrod a achoswyd i faes carafannau oherwydd i bersonél orfodi eu ffordd i mewn yn ystod cyfnod o lifogydd difrifol, fodd bynnag, ni chafodd y cwyn ei gynnal gan yr Ombwdsman.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD *bod yr adroddiad yn cael ei nodi.*

- 10 I YSTYRIED UNRHYW EITEMAU ARALL O FUSNES Y MAE'R CADEIRYDD, OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, YN PENDERFYNU Y DYLLID EU HYSTYRIED FEL MATER O FRYS YN UNOL AG ADRAN 100(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.**

Doedd dim eitemau o fusnes brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:45.

RHESTR GWEITHREDU – PWYLLGOR SAFONAU – 2 RHAGFYR 2013

Darperir y rhestr gweithredu ar gyfer Swyddogion ac Aelodau, er mwyn eu galluogi nhw i fod yn ymwybodol o brif weithredoedd y cyfarfod, ynghyd â cheisiadau unigol gan Aelodau'r Awdurdod Tân

Eitem ar yr Agenda	Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Cynnydd
5 – Protocol Hunanreoli'r Aelodau	Y Clerc / Swyddog Monitro i holi p'un ai byddai'r Panel Dyfarnu Lleol yn medru cyfeirio cwynion at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ar unrhyw adeg yn ystod proses ymchwilio, pe byddent yn ystyried hynny'n briodol.	Clerc a Swyddog Monitro	
8 – Adroddiad Ychwanegol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol	Y Clerc / Swyddog Monitro i geisio eglurhad gan CLILC, er mwyn darganfod p'un ai dylai ffioedd yr Aelodau am bob gweithgaredd (paratoi cyn cyfarfodydd, penderfynu ar hyd cyfarfodydd ymlaen llaw a dyletswyddau cymeradwy sy'n gymwys ar gyfer tâl) gael eu cyfuno neu eu cyfrif fel ffioedd ar wahân.	Clerc a Swyddog Monitro	
11 – Rhifynnau 13 a 14 o Goflyfr yr Ombwdsman	Y Clerc / Swyddog Monitro i ddarganfod dyddiad cyhoeddi coflyfr Côd Ymddygiad Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.	Clerc a Swyddog Monitro	